OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1418 (Cy.174)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gywiro gwallau yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 1418 (W.174)

# EDUCATION, WALES

## The Special Educational Needs Tribunal for Wales (Amendment) Regulations 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Special Educational Needs Tribunal for Wales Regulations 2012.

Regulation 2 of these Regulations makes amendments to correct errors in the Welsh text of the Special Educational Needs Tribunal for Wales Regulations 2012.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1418 (Cy.174)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Mai 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 336(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 21 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012**

**2**.—(1) Mae Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 13(4) (cais apêl), yn y testun Cymraeg—

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 336(1) gan baragraffau 127, 133(a)(i) a 133(a)(ii) o Atodlen 3 i O.S. 2008/2833. Diwygiwyd adran 336(2) gan Atodlenni 8 a 9 i Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2008/2833 ac adran 7 o Fesur Addysg (Cymru) 2009. Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8 o Fesur Addysg (Cymru) 2009.

(**2**) 2007 p.15.

(**3**) O.S. 2012/322 (Cy.53).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 1418 (W.174)

# EDUCATION, WALES

## The Special Educational Needs Tribunal for Wales (Amendment) Regulations 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 May 2012* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *30 May 2012* |
| *Coming into force* | *21 June 2012* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 336(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and after consulting the Administrative Justice and Tribunals Council in accordance with paragraph 24(1) of Schedule 7 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007(**2**), make the following Regulations.

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Special Educational Needs Tribunal for Wales (Amendment) Regulations 2012 and they come into force on 21 June 2012.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendments to the Special Educational Needs Tribunal for Wales Regulations 2012**

**2**.—(1) The Special Educational Needs Tribunal for Wales Regulations 2012(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 13(4) (appeal application), in the Welsh text—

(**1**) 1996 c.56. Section 336(1) was amended by paragraphs 127, 133(a)(i) and 133(a)(ii) of Schedule 3 to S.I. 2008/2833. Section 336(2) was amended by Schedules 8 and 9 to the Special Educational Needs and Disability Act 2001, and further amended by S.I. 2008/2833 and section 7 of the Education (Wales) Measure 2009. Section 569(4) was amended by section 8 of the Education (Wales) Measure 2009.

(**2**) 2007 c.15.

(**3**) S.I. 2012/322 (W.53).

(a) yn lle is-baragraff (c)(ii) rhodder—

"(ii) ysgol annibynnol, drwy gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi hysbysu perchennog yr ysgol am fwriad y person i ofyn am enwi'r ysgol annibynnol yn y datganiad;"; a

(b) ar ôl is-baragraff (c)(ii) mewnosoder—

"(iii) ysgol annibynnol, drwy gadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol bod lle ar gael yn yr ysgol i'r plentyn.".

(a) for sub-paragraph (c)(ii) substitute—

"(ii) ysgol annibynnol, drwy gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi hysbysu perchennog yr ysgol am fwriad y person i ofyn am enwi'r ysgol annibynnol yn y datganiad;"; and

(b) after sub-paragraph (c)(ii) insert—

"(iii) ysgol annibynnol, drwy gadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol bod lle ar gael yn yr ysgol i'r plentyn.".

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

25 Mai 2012

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

25 May 2012

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2012 Rhif 1418 (Cy.174)

## 2012 No. 1418 (W.174)

## ADDYSG, CYMRU

## EDUCATION, WALES

Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012

The Special Educational Needs Tribunal for Wales (Amendment) Regulations 2012

£4.00

W1313/06/12 ON